

From: North Planning <NorthPlanning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk>
Sent: 21 June 2022 15:32
To: planning_admin
Subject: P/2022/0451 - M S Brook, The Chequer, Bronington, Wrexham, SY13 2JQ (Minor) - NRW Response NRW:01950042

Annwyl Mr Ashley,

Diolch am ymgynghori gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn a'r cais uchod.

Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig fel y'i cyflwynwyd ac rydym yn darparu'r cyngor a ganlyn.

Nodwn fod safle'r cais o fewn dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Fel y gwyddoch, ar 21 Ionawr 2021, cyhoeddwyd pecyn tystiolaeth yn amlinellu lefelau ffosfforws ar gyfer pob ACA afonydd ledled Cymru. Fel rhan o'r pecyn hwn, cyhoeddwyd [Ddatganiad Sefyllfa Cynllunio](#), lle'r oeddem yn cynghori y gallai unrhyw ddatblygiad arfaethedig a allai gynyddu faint o ffosffad (neu ffosfforws) o fewn dalgylch ACA afon arwain at effeithiau niweidiol i'r ACA. Felly, dylai cynigion o'r fath gael eu sgrinio drwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), i benderfynu a ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr ACA.

Fodd bynnag, mae'r cais fel y'i cyflwynwyd yn annhebygol o gynyddu faint o ffosfforws sy'n mynd i mewn i'r dalgylch. Felly, rydym yn fodlon nad yw'r bwriad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid.

Dylai'r ymgeisydd gael ei hysbysu mai hwy, yn ogystal â chaniatâd cynllunio, sydd yn gyfrifol am sicrhâi bod ganddynt yr holl drwyddedau/caniatadau sy'n berthnasol i'w datblygiad.

Hyderwn fod y sylwadau uchod o gymorth, fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Cofion Cynnes

Dear Mr Ashley,

Thank you for consulting Natural Resources Wales on the above application.

We have no objection to the proposed development as submitted and provide the following advice.

We note the application site is within the catchment of the River Dee and Bala Lake Special Area of Conservation (SAC). As you are aware, on the 21st January 2021, we published an evidence package outlining phosphorus levels for all river SACs across Wales. As part of this package, we issued a [Planning Position Statement](#), in which we advised that any proposed development that might increase the amount of phosphate (or phosphorus) within a river SAC catchment could lead to damaging effects to the SAC. Therefore, such proposals should be screened through a Habitats Regulations Assessment (HRA), to determine whether they are likely to have a significant effect on the SAC.

However, the application as submitted is unlikely to increase the amount of phosphorus entering the catchment. Therefore, we are satisfied that the proposal is not likely to have a significant effect on the River Dee and Bala Lake SAC.

The applicant should be advised that, in addition to planning permission, it is their responsibility to ensure that they secure all other permits/consents relevant to their development.

We trust that the above comments are of assistance however, should you have any queries, please do not hesitate to contact me.

Kind Regards

Sara Thomas

Tîm Cynllunio Datblygu / Development Planning Team

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

Ffôn / Tel: +443000653181

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk / www.naturalresourceswales.gov.uk

Yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy / Proud to be leading the way to a better future for Wales by managing the environment and natural resources sustainably.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hynny arwain at oedi / Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.